# Public Health Wales statement on Novel Coronavirus (COVID- ) outbreak

**This statement will be updated daily at midday**

***Statement: Updated at 12pm on Saturday 16 January 2021***

Dr Chris Williams, Incident Director for the Novel Coronavirus (COVID-19) outbreak response at Public Health Wales, said:

"The number of positive Coronavirus cases remains extremely high in Wales and is cause for serious concern, due to the impact on NHS Wales services.

"All of Wales remains in lockdown. We ask that the public adopts the same mindset for this lockdown as they did in March 2020. We understand that people are fatigued but because the new, more infectious variant of coronavirus is circulating across Wales it is vital that we all keep to the lockdown restrictions and do not meet other people.

"This means that you must stay at home. If exercising outdoors, please do this alone or with members of your household or support bubble only. Shop online, but if you do need to visit essential retail then do this alone, if possible, to minimise numbers of people in retail spaces, and avoid stopping to chat with people outside your household. If you must leave home keep your distance, wash your hands regularly, and wear a face mask when required according to the regulations.

"Public Health Wales urges everyone to follow the rules, to avoid transmission of Coronavirus and to protect everyone in our communities, including the most vulnerable.

"Public Health Wales is working with UK partners to investigate and respond to the new variant of coronavirus identified in Wales. The new variant is easier to spread and the public should remain highly vigilant in measures to prevent transmission including maintaining social distancing, regularly handwashing and wearing of face coverings. Though the new variant is more infectious, there is no evidence that it leads to more severe disease.

"From 4am on Monday 18 January, if you intend to travel to England, Scotland, or Wales, including UK nationals returning home from travel abroad, you must provide evidence of a negative COVID-19 test result taken up to 3 days before departure.

"Under current UK COVID-19 restrictions, you must stay at home. You must not leave home or travel, including internationally, unless you have a legally permitted reason to do so.

"If you are due to travel out of the UK, please be aware of the changing situation and keep an eye on the FCO website for up to date details.

"The roll-out of the Pfizer BioNTech and AstraZeneca Coronavirus vaccines continues in Wales with the the recently Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) approved Moderna vaccine to be incorporated into the programme soon.

"Daily vaccination data is published on the Public Health Wales dashboard. The headline summary includes daily cumulative numbers of individuals who have received a first and second vaccination dose. Public Health Wales is working closely with the Welsh Government as they deploy Coronavirus vaccinations through local health boards. Welsh Government is leading on the deployment of the vaccine in Wales.

"Vaccinating the adult population of Wales, to protect people from severe disease, is a significant task, and the vaccine will take time to reach everyone. The effects of the vaccines may not be seen nationally for some time, and we must continue to follow the advice on keeping Wales safe.

"The Joint Committee on Vaccination and Immunisation (JCVI) has issued a short statement outlining the case for optimising the existing vaccine programme within the UK to achieve maximum short term impact. The JCVI advises initially prioritising delivery of the first vaccine dose as this is highly likely to have a greater public health impact in the short term and reduce the number of preventable deaths from COVID-19.

"Given the data available, and evidence from the use of many other vaccines, Public Health Wales fully supports the JCVI advice to increase a maximum interval between the first and second doses of 12 weeks for both Pfizer BioNTech and AstraZeneca vaccines.

“Members of the public should not phone your GP, pharmacy or hospital asking when they will get a vaccine. When someone is in one of the groups eligible for the vaccine, they will be invited to attend a dedicated clinic which will have been set up to ensure patient safety and that of the healthcare professionals.

“If you or a member of your household develop a cough, fever or change in sense of taste or smell, you must self-isolate immediately and book a free Coronavirus test, either by calling 119 or by clicking here.

***Datganiad: Diweddarwyd 12yh Dydd Sadwrn 16 Ionawr 2021***

Dywedodd Dr Chris Williams, y Cyfarwyddwr Digwyddiadau ar gyfer yr ymateb i'r achosion o'r Coronafeirws Newydd (COVID-19) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

“Mae nifer yr achosion positif o’r Coronafeirws yn parhau i fod yn eithriadol uchel yng Nghymru ac mae’n destun pryder difrifol oherwydd yr effaith ar wasanaethau GIG Cymru.

“Mae'r cyfyngiadau symud yn parhau ledled Cymru gyfan. Gofynnwn i’r cyhoedd fabwysiadu’r un meddylfryd ar gyfer y cyfyngiadau symud cyfredol ag y gwnaethant ym mis Mawrth 2020. Deallwn fod pobl wedi cael digon ond, oherwydd bod amrywiolyn newydd, mwy heintus o’r Coronafeirws ar led ar draws Cymru, mae’n hanfodol ein bod ni i gyd yn glynu wrth y cyfyngiadau symud ac nad ydym yn cwrdd â phobl eraill.

“Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi aros gartref. Os byddwch yn gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored, gwnewch hynny ar eich pen eich hun neu gydag aelodau o’ch aelwyd neu’ch swigen gefnogi yn unig. Dylech siopa ar-lein, ond os oes angen i chi ymweld â mannau manwerthu hanfodol, gwnewch hynny ar eich pen eich hun os yn bosibl, er mwyn lleihau nifer y bobl mewn mannau manwerthu, a dylech osgoi stopio i siarad â phobl y tu allan i’ch aelwyd. Os oes rhaid i chi adael eich cartref, cadwch eich pellter, golchwch eich dwylo’n rheolaidd a gwisgwch fasg wyneb pan fo angen, yn unol â’r rheoliadau.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annog pawb i gadw at y rheolau, i osgoi trosglwyddo’r Coronafeirws ac i ddiogelu pawb yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.

“Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn y DU i ymchwilio ac i ymateb i’r amrywiolyn newydd o’r Coronafeirws a nodwyd yng Nghymru. Mae’r amrywiolyn newydd yn lledaenu’n haws a dylai’r cyhoedd gadw at y mesurau’n ofalus er mwyn atal trosglwyddiad, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo’n rheolaidd a gwisgo gorchuddion wyneb. Er bod yr amrywiolyn newydd yn fwy heintus, nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod yn arwain at afiechyd mwy difrifol.

“O 4am dydd Llun 18 Ionawr ymlaen, os ydych chi’n bwriadu teithio i Gymru, Lloegr neu’r Alban, gan gynnwys gwladolion y DU sy’n dychwelyd adref o deithio dramor, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o brawf COVID-19 negatif a gafwyd hyd at 3 diwrnod cyn gadael.

“O dan gyfyngiadau COVID-19 presennol y DU, rhaid i chi aros gartref. Ni ddylech adael eich cartref na theithio, gan gynnwys yn rhyngwladol, oni bai fod gennych chi reswm a ganiateir yn gyfreithiol dros wneud hynny.

“Os ydych chi i fod i deithio allan o’r DU, rhaid i chi fod yn ymwybodol o’r sefyllfa fel mae’n newid a chadw llygad ar wefan yr FCO am y manylion diweddaraf.

“Mae’r gwaith o gyflwyno’r brechlynnau Coronafeirws Pfizer BioNTech ac AstraZeneca yn parhau yng Nghymru, a chaiff y brechlyn Moderna sydd wedi’i gymeradwyo’n ddiweddar gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ei gynnwys yn y rhaglen maes o law.

“Cyhoeddir data brechu dyddiol ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd crynodeb y pennawd yn cynnwys nifer cronnus dyddiol o unigolion sydd wedi derbyn dos cyntaf ac ail ddos o’r brechlyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddarparu brechiadau Coronafeirws drwy’r byrddau iechyd lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o ddarparu’r brechlyn yng Nghymru.

“Mae brechu oedolion Cymru er mwyn amddiffyn pobl rhag afiechyd difrifol yn dasg sylweddol a bydd yn cymryd amser i frechu pawb. Efallai na fydd effeithiau’r brechlynnau i’w gweld yn genedlaethol am beth amser, a rhaid i ni barhau i ddilyn y cyngor ar gadw Cymru’n ddiogel.

“Mae’r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi cyhoeddi datganiad byr yn amlinellu’r achos dros optimeiddio’r rhaglen frechu bresennol yn y DU i gael yr effaith tymor byr fwyaf posibl. Mae'r JCVI yn cynghori blaenoriaethu cyflwyno'r dos cyntaf o’r brechlyn i ddechrau gan fod hyn yn debygol iawn o gael mwy o effaith ar iechyd y cyhoedd yn y tymor byr a lleihau nifer y marwolaethau o ganlyniad i COVID-19 y gellir eu hatal.

“O ystyried y data sydd ar gael, a'r dystiolaeth o'r defnydd o lawer o frechlynnau eraill, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyr gefnogi cyngor JCVI i gynyddu'r cyfnod mwyaf rhwng y dos cyntaf a'r ail ddos o 12 wythnos ar gyfer y brechlynnau Pfizer BioNTech ac AstraZeneca.

“Ni ddylai aelodau’r cyhoedd ffonio eu meddyg teulu, fferyllfa nag ysbyty yn gofyn pryd y byddant yn cael brechlyn. Pan fydd rhywun yn un o'r grwpiau sy'n gymwys i gael y brechlyn, fe'u gwahoddir i fynd i glinig pwrpasol a fydd wedi'i sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

“Os byddwch chi neu aelod o'ch aelwyd yn datblygu peswch, twymyn neu newid i synnwyr blasu neu arogli, rhaid i chi hunanynysu ar unwaith ac archebu prawf Coronafeirws am ddim naill ai drwy ffonio 119 neu drwy glicio yma.